# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

## <u>Cofnodion Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ebrill 11 2023</u>

**Presennol :-**
**Cynghorwyr :-** Llinos Murphy, Sandra Bodden Jones, John Gwynedd Roberts, Gwilym Jones, Alwyn Gruffydd, Llywelyn Rhys (Cadeirydd) , Aled Griffith, Michael Roberts
Marian Roberts ( Clerc)
**368.4.23 Ymddiheuriadau:-**
**Cynghorwyr :-** Dr Melfyn Edwards, Connor Westwood, Carol Hayes

**369.4.23 Adroddiad y Cadeirydd.**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod a diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am droi allan ar noson mor arw. Dywedodd ein bod erbyn hyn yn nhymor y gwanwyn ond anodd oedd coelio hyn ar noson mor stormus. Er iddo groesawu'r prysurdeb diweddar nododd fod y newid tymor yn dod â'i broblemau ei hun wrth i drigolion y dref ddygymod â'r cynnydd yn yr ymwelwyr a'r prysurdeb cyffredinol. Nododd hefyd mai er cymaint yr amrywiaeth yn y boblogaeth dros y tymor gwyliau fod is-adeiledd a gwasanaethau cyhoeddus y dref yn aros yr un fath – nad oes dim ychwanegiad yn y gwasanaethau cyhoeddus - boed yn wasanaeth glanhau strydoedd, gwagio biniau a'r nifer o swyddogion Heddlu yn yr ardal – er mwyn ymdopi â'r cynnydd yn y boblogaeth.
Dywedodd ei fod yn dod i ddiwedd ei gyfnod dwy flynedd fel Cadeirydd a'i fod yn awyddus i ddefnyddio gweddill ei Lwfans yn briodol cyn gorffen yn ei swydd. Roedd am gyfrannu arian o'i Lwfans i drefnu cael cofeb parhaol ar ochr y Cyt er cof am Ffion Wyn Roberts a gafodd ei llofruddio yn 2010. Mae yno groes yn nodi'r fan eisoes ond roedd yn awyddus i osod plac llechen er cof amdani ac i gydnabod cyfraniad y Cyngor Tref.

**370.4.23 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Mawrth 14 2023**
Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**371.4.23 Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**
Dim datganiad o ddiddordeb.

**<u>MATERION I'W DWYN GERBRON :-</u>**

**372.4.23 Llenwi Tabl Cydnabyddiaeth Ariannol 2023-2024 (** copi ynghlwm)
**Penderfynwyd :-** cadw i'r un penderfyniadau ag yllynedd a pheidio a derbyn Ad-daliad am nwyddau traul am eleni yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio.

**373.4.23 Cymeradwyo Adroddiad Cynllun Bioamrywiaeth 2022** ( gweler 345.3.23 a gohebiaeth 14)
Dymunodd Cyng Gwilym Jones fynegi ei ganmoliaeth a'i ddiolch i'r Clerc am yr adrodddiad.
**Penderfynwyd :-** derbyn y ddogfen a'i chymeradwyo yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Aled Griffith yn eilio.

**374.4.23 Penderfynu ar aelodau ar gyfer Is-Bwyllgor Nadolig**
Cynigiodd Cyng Sandra Bodden Jones i ymuno â Llinos Murphy a'r Clerc i ddechrau'r broses o baratoi at Nadolig 2023.
**Penderfynwyd:-** apelio am fwy o wirfoddolwyr yng Nghyfarfod Blynyddol mis Mai yn ôl cynnig Cyng

Alwyn Gruffydd.

**375.4.23 Cyng Gwilym Jones – cynnig holi'r Adran Cynllunio os rhoddwyd caniatâd i osod y goleuadau coch llachar ar y siop barbwr newydd ac os cafwyd caniatâd cynllunio 'newid defnydd' ar y safle.**(gweler lluniau gohebiaeth 13)
Cytunwyd bod y goleuadau llachar yn beryglus oherwydd eu bod yn tynnu sylw gyrrwyr wrth yrru heibio iddynt ar y Stryd Fawr. Nodwyd hefyd fod y Cyngor Tref ers blynyddoedd bellach wedi gwrthod unrhyw Gais Cynllunio i gael goleuadau fel hyn sydd yn ymestyn allan o adeiladau'r Stryd Fawr.
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig gan ychwanegu gwrthwynebiadau'r Cyngor Tref i'r fath gais petai'n dod i law yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**376.4.23 Cyng Michael Roberts – cynnig holi'r Adran Cynllunio os rhoddwyd caniatâd i osod arwyddion uniaith Saesneg o flaen y Black Rock Beach Club, Morfa Bychan.**
Clywyd fel yr oedd arwyddion uniaith Saesneg yn hysbysebu'r sefydliad a chytunwyd y byddai gosod arwyddion dwyieithog yn fanteisiol i'r busnes gan iddo barchu ac adlewyrchu iaith a diwylliant yr ardal.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu i berchnogion y Black Rock Beach Club i ofyn yn garedig iddynt roi arwyddion dwyieithog ar eu hysbysebion a'u harwyddion yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

**377.4.23 Cyng Michael Roberts – cynnig cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ddod i gasglu'r 'cones' y mae pobl yn eu gosod o flaen eu tai i atal eraill rhag parcio yno.**
Clywyd fel yr oedd trigolion strydoedd Wesla, Glaslyn, Heol Newydd ac East Avenue yn cwyno am y diffyg lle i barcio o flaen eu cartrefi. Cytunwyd fod hyn yn broblem sydd yn gwaethygu'n aruthrol dros gyfnod gwyliau'r Pasg a'r haf gyda'r niferoedd uchel o geir ymwelwyr yn y dref. Nodwyd hefyd nad oedd hawl gan drigolion i osod 'cones' o flaen eu tai gan fod hyn yn rhwystro mynediad cyhoeddus. Awgrymwyd y gallai staff Thedford House wneud defnydd llawn o'u maes parcio ar waelod Heol Newydd yn hytrach na'i adael yn wag ac ar glo - byddai hyn yn gwella rhywfaint ar y sefyllfa.
**Penderfynwyd :-** ysgrifennu i Gyngor Gwynedd i holi am fanylion ar sut i wneud cais am 'Drwydded Parcio Trigolion' ar gyfer y strydoedd yma yn ôl cynnig Cyng Llinos Murphy, Cyng Michael Roberts yn eilio.
**378.4.23 Cyng Llywelyn Rhys – cynnig gweithredu i wella cyflwr mainc goffa Glenda Burke.(gweler lluniau gohebiaeth 5)**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig trwy sicrhau amcanbris gan 3 saer lleol ar gyfer y gwaith yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

**379.4.23 Cyng Alwyn Gruffydd – cynnig cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i atal pobl rhag parcio ar draws y palmant wrth y fynedfa i lwybr Cob Crwn o ochr Melin yr Wyddfa gan na ellir cael mynediad yno gyda chadair olwyn.(gweler lluniau gohebiaeth 6)**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**380.4.23 Cyng Michael Roberts – cynnig cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am fwy o finiau rhwng Borth y Gest a Phorthmadog – yn enwedig ardal y Garth.**
**Penderfynwyd :-** gweithredu ar y cynnig, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

**381.4.23 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Mai 9 2023 = Ebrill 29 2023 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

- **Cyng Aled Griffith :-** cynnig holi Steffan Jones am gynnydd datblygiadau'r Golff Bach.
- **Cyng Llywelyn Rhys :-** cynnig holi'r awdurdodau am arwyddion anghywir a chamarweiniol ar hyd Lôn Carreg Samson.
- **Cyng Llywelyn Rhys :-** cadarnhau cyfraniad Cyngor Tref Porthmadog i ddathliadau Eisteddfod Genedlaethol 2023.

**382.4.23 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm)**.**
Mynegwyd anfodlondeb ynglyn ag arafwch rhai o swyddogion Cyngor Gwynedd yn ymateb i lythyrau. Nodwyd fod ateb wedi dod o'r diwedd gan Iwan Evans, Pennaeth Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn dilyn anfon llythyr gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2021 a'i ail yrru 3 gwaith ers hynny. Mae ei ateb yn rhif 15 o ohebiaeth y cyfarfod hwn. Nodwyd hefyd bod yr arafwch yma gan Gyngor Gwynedd yn fater o bryder ymhlith cynghorau eraill a gafodd ei drafod yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Arfon - Dwyfor Un Llais Cymru ar 5.4.23. Cytunodd Mel ab Owain i lythyru Adran Cwynion Cyngor Gwynedd ar ran y Pwyllgor ynglyn â'r mater.

**<u>GOHEBIAETH :</u>**

**383.4.23 PETER SIMPSON C.G., Timau tacluso Ardal Ni**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.
**384.4.23 DEWI WYN OWEN C.G., Ymateb i 299.2.23 arwydd llwybr Cae Llety**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.

**385.4.23 JASON HUMPHREYS, Gwasanaethau meddygol Porthmadog**
Trafodwyd peth o'r wybodaeth a gafwyd yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Y Ganolfan ar 30.3.23. Yn dilyn ymholiadau yn rhinwedd ei swydd fel Cynghorydd Sir Gwynedd, cafwyd gwybodaeth pellach gan Cyng Gwilym Jones :-

- fod lês ar y feddygfa bresennol yn sefyll tan 2030;
- fod cyfamod arno yn dweud na chaiff ei ddefnyddio i unrhyw bwrpas arall ond fel meddygfa;
- fod y Cyngor Tref wedi gwrthwynebu yn gryf iawn y cais cynllunio ddaeth gerbron yn ddiweddar i'w ddymchwel;
- nad oes cynlluniau pendant gan Betsi Cadwaladr i newid y sefyllfa
- y bydd Panel yn cael ei sefydlu i gynnwys Cynghorwyr Sir a Chymuned
- fod aelodau Pwyllgor Hwb Iechyd Eifionydd ( sydd wedi dewis peidio a chynnwys cynrychiolwyr o'r Cynghorau Cymuned) am gyfarfod yn fuan i geisio cael mwy o wybodaeth
- ei fod wedi gofyn i Awdurdod Iechyd Betsi Cwdwaladr i lunio cynllun ffurfiol priodol i Borthmadog

**Penderfynwyd :-** ysgrifennu i ddiolch i Mr Jason Humphreys am ei lythyr ac i basio'r wybodaeth ymlaen ato fod trafodaethau yn digwydd ynglyn â'r mater ac na chynhelir cyfarfod cyhoeddus hyd nes bod gan y Cyngor Tref unrhyw wybodaeth pendant i'w rannu gyda'r cyhoedd yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Michael Roberts yn eilio.

**386.4.23 EMMA TAMPLIN, Ymateb i 344.3.23 Plac Porffor**
Ymddiheurodd y Clerc am y camddealltwriaeth a nododd ei bod wedi ail yrru'r cais i gael Plac Porffor i goffau Mair Eifion.

**387.4.23 LLUNIAU MAINC GOFFA GLENDA BURKE**
**Wedi trafod eisoes yn 378.4.23.**

**388.4.23 LLUNIAU LLWYBR COB CRWN**
**Wedi trafod eisoes yn 379.4.23.**

**389.4.23 MEINIR GRIFFITHS, Ymateb i 344.3.23**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.

**390.4.23 DAVID CHARLES WILLIAMS C.G., Ymateb i 204.11.22 – glanhau mainc Ann Bullen**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.

**391.4.23 CATRIN ROBERTS CFFI, Ymateb i 354.3.23 – croesawu'r Eisteddfod**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth a gosod y mater o addurno ar gyfer yr Eisteddfod ar raglen

cyfarfod llawn mis Mai.

**392.4.23 STEFFAN JONES, Ymateb i 230.12.22 – codi dail**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i holi am raglen waith glanhau strydoedd Porthmadog yn ôl cynnig Cyng Aled Griffith, Cyng Sandra Bodden Jones yn eilio.

**393.4.23 STEFFAN JONES, Ymateb i 335.3.23 van Mr Shift It**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.

**394.4.23 STEFFAN JONES Ymateb i 339.3.23 – cais am fainc bicnic i'r Nyrseri**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.

**395.4.23 LLUNIAU'R BARBWR NEWYDD**
**Wedi trafod eisoes yn 375.4.23.**

**396.4.23 ADRODDIAD BIOAMRYWIAETH 2022, Gweler 345.3.23**
**Wedi trafod eisoes yn 373.4.23.**

**397.4.23 IWAN EVANS C.G., Ymateb i 204.12.21 perchnogaeth y Cob a Cob Crwn**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.

**398.4.23 IWAN AP TREFOR, Cyflymder 20**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.

**399.4.23 LLYWODRAETH CYMRU, Papur Gwyn Diwygio Etholiadol**
**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth.

**<u>400.4.23 MATERION ARIANNOL</u> :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| CYNGOR GWYNEDD | Grant Cronfa Rhandiroedd i Gae Pawb – taliad 2 | £ 226.80 |
| CYNGOR GWYNEDD | Grant Cronfa Rhandiroedd i Gae Pawb – taliad 3 | £ 493.08 |
| H.S.B.C. | Llog Banc Chwefror / Mawrth 2023 | £ 30.46 |
| CYNGOR GWYNEDD | Ad-daliad torri gwair 2022-23 | £ 1,064.50 |

**Biliau i'w talu :-**
Nododd y Clerc fod anfoneb rhif 11 ( Cyngor Gwynedd – Difa Pla Cae Pawb ) wedi ei ychwanegu at y rhaglen.

Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Aled Griffith yn eilio:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Marian Roberts | LLinell Ffôn a Wê Mawrth 2023 | £ 51.36 |
| 2 | Marian Roberts | Cyflog Clerc Mawrth 2023 | £ 922.97 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Mawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Mawrth 2023 | £ 230.74 |
| 4 | Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb | Trosglwyddo Grant Cronfa Rhandiroedd i Gae Pawb – taliad 2 a 3 | £ 719.88 |
| 5 | Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd | Cyfraniad olaf ( gweler cofnodion 314.3.22) | £ 5,000.00 |
| 6 | Marian Roberts | Ad-daliad am inc du | £ 19.59 |
| 7 | SLCC | Tâl aelodaeth 2023-2024 | £ 177.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Archwilio Cymru | Ffioedd archwilio 2020-21 | £ 235.00 |
| 9 | Y Ganolfan | Cyfarfod mis Mawrth | £ 50.00 |
| 10 | Cymru 1 Ltd | Gwasanaeth gwefan 2023-2024 | £ 523.20 |
| 11 | Cyngor Gwynedd | Difa pla Cae Pawb | £ 300.00 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

**401.4.23 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**(a) Rhif Cais .: C23/0270/44/DT ( wedi ebostio 31.3.23)**
Lleoliad : Neuadd Wen Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YA
Bwriad : Estyniad

**Penderfynwyd :- Dim gwrthwynebiad** yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng John Gwynedd Roberts yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.15

Marian Roberts
( Clerc)
13.4.23

*Marian Roberts (Clerc/Clerk),29 Maes Gerddi, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9LE*
*Ffôn / Tel : 01766 513709*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*